Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

## Datganiad Blynyddol 2025

### Cyflwyniad a chyd-destun

Croeso i ddatganiad blynyddol Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ar gyfer y gweithgarwch a wnaed yn ystod 2025. Sefydlwyd y Rhwydwaith i feithrin cydweithio, rhannu gwybodaeth, a chefnogi mentrau diogelwch cymunedol ledled Cymru.

Mae'r datganiad blynyddol cyntaf hwn yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Rhwydwaith yn ystod y flwyddyn, gan dynnu sylw at gyflawniadau allweddol, yr effaith gadarnhaol a gafwyd, a'r gwerth y mae'r Rhwydwaith yn ei ddarparu i'n haelodau, budd-ddeiliaid a phartneriaid i greu cymdogaethau mwy diogel a gwydn trwy arloesedd, partneriaeth a dysgu ar y cyd. Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae buddsoddi yn y Rhwydwaith yn galluogi cydlynu, meithrin capasiti ac arweinyddiaeth gydweithredol a fyddai'n anodd eu cyflawni pe bai sefydliadau unigol yn gweithredu ar eu pen eu hunain. Mae gwaith y Rhwydwaith yn cael ei oruchwylio gan grŵp gweithredol o'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.

Mae'r Rhwydwaith wedi ennill ei blwyf yn rhan allweddol o dirlun partneriaethau yng Nghymru, ers ei sefydlu yn 2021. Eleni, bu cam pwysig yn y gwaith o gynnal y momentwm hwnnw drwy nifer o ddigwyddiadau allweddol a mentrau cyffrous a wellodd ein gallu i hyrwyddo a chefnogi ymarferwyr diogelwch cymunedol a chryfhau ein dull o weithio mewn partneriaeth.

Mae diogelwch cymunedol yn dod yn fwyfwy cymhleth, wedi'i lywio gan risgiau newydd sy'n rhychwantu mannau ffisegol a digidol, gan gynnwys twf cyflym niwed a chamfanteisio ar-lein. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau lleol ledled Cymru yn gweithredu dan bwysau parhaus, sy’n ei gwneud yn bwysicach nag erioed i ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth. Mae gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ran hanfodol yn y cyd-destun hwn drwy ddod ag ymarferwyr a phartneriaid ynghyd i rannu gwybodaeth, meithrin capasiti a chefnogi ymatebion cydlynol sy'n helpu cymunedau i fod yn ddiogel, yn wydn ac yn gysylltiedig.

## Ein pwrpas a’n blaenoriaethau

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn darparu cydlyniad, arweinyddiaeth a chefnogaeth genedlaethol ar gyfer arferion diogelwch cymunedol ledled Cymru wrth i ni barhau i weithio tuag at ddyfodol lle mae cymunedau ledled Cymru yn fwy diogel, yn gryfach ac yn fwy cysylltiedig. Mae’r Rhwydwaith, sydd wedi'i arwain gan ein strategaeth pum mlynedd Gwneud Cymru'n Fwy Diogel Gyda'n Gilydd, yn canolbwyntio ar wella dulliau atal, ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth, gan gefnogi ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i heriau diogelwch cymunedol sy'n gynyddol gymhleth.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar bedwar blaenoriaeth strategol craidd:

- Gwneud y cysylltiadau - Dod ag ymarferwyr, partneriaid a rhwydweithiau at ei gilydd i wella cydlynu, lleihau dyblygu a chryfhau cysylltiadau rhwng darpariaeth leol a pholisi cenedlaethol.
- Cefnogi ymarferwyr - Hyrwyddo'r gweithlu diogelwch cymunedol drwy rannu gwybodaeth, hwyluso ymgysylltiad a sicrhau bod profiad ymarferwyr yn llywio polisi ac ymarfer.
- Datblygu hyfforddiant a chapasiti - Datblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol hygyrch sy'n creu llinell sylfaen gyson o sgiliau a gwybodaeth ledled Cymru.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus - Defnyddio tystiolaeth, adborth a gwerthuso i lunio blaenoriaethau, cefnogi atal ac ymyrraeth gynnar, a hyrwyddo ymarfer effeithiol ar draws y system.

Rydym ni’n creu ac yn cynnal cymuned genedlaethol ar gyfer pawb sy’n ymwneud â diogelwch cymunedol.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym ni yn 2025 yn erbyn blaenoriaethau ein Cynllun Strategol

**1. Gwneud y cysylltiadau**

Mae'r Rhwydwaith wedi dod yn bwynt cynnull drwy leihau dyblygu, darparu negeseuon cyson a sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth. Rydym ni wedi:

- Gwella cydlynu ac wedi creu cyfleoedd i osgoi dyblygu a dod o hyd i nodweddion cyffredin drwy atgyfnerthu ein perthynas â Chymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WaCSO), ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a grwpiau Rhwydwaith Gwybodaeth a Dadansoddi Data Cymru. Mae'r tri grŵp bellach yn dod dan y Rhwydwaith sy'n ein galluogi ni i gydlynu gweithgaredd yn fwy effeithiol a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth i annog mentrau ar y cyd.

- Cryfhau'r cysylltiadau â phartneriaid cyfiawnder troseddol drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae gwefan y Rhwydwaith hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd a'r Panel Ymgynghorol a Goruchwylio Annibynnol ar gyfer y Cynllun Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn dangos y cysylltiadau cynyddol rhwng diogelwch cymunedol a materion cyfiawnder troseddol ac yn darparu gwerth drwy leihau dyblygu a chostau yn ogystal â hyrwyddo dull partneriaeth.
- Trefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau gan gynnwys:
    - Cynhadledd flynyddol WaCSO – yn dod ag ymarferwyr at ei gilydd ar draws gwahanol sefydliadau a sectorau
    - Digwyddiad ymylol Cynhadledd Flynyddol CLlLC – yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a gwybodaeth cynghorwyr.

Mae hyn yn ychwanegol at yr amrywiaeth o fyrddau, paneli a gweithgorau yr ydym ni'n eu mynd iddynt sy'n ein galluogi ni i gasglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth a gwneud cysylltiadau rhwng sefydliadau ac ymarferwyr.

**2. Cefnogi ymarferwyr**

Rydym ni'n darparu rhaglen o sesiynau addysgiadol i ymarferwyr i'w helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau ac ymchwilio i feysydd diogelwch cymunedol nad oedden nhw efallai wedi'u hystyried yn eu swyddi presennol.

Gwnaethom ni gynnal pum seminar ar-lein yr oedd 230 o unigolion yn bresennol ynddynt yn ystod y gwanwyn/haf a oedd yn canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol ac effaith gymunedol, a rhannu arferion gorau a mentrau y gall ymarferwyr eu rhoi ar waith yn eu swyddi. Roedd y pynciau'n cynnwys anghydraddoldebau iechyd, troseddau casineb, dargyfeirio camddefnyddio sylweddau, niwrowahaniaeth ac eithafiaeth, ac ymateb Gofal Cywir, Person Cywir (RCRP) i iechyd meddwl.

Dyma rywfaint o'r adborth a gafwyd:

*"Gallaf gymhwyso'r hyn a ddysgais o'r sesiwn hon i fy ngwaith gwirfoddol gyda Mind ac yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili." - Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid, Awdurdod Lleol*

*"Roedd y seminar yn ddiddorol, yn addysgiadol, yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol. Rwy'n teimlo bod gen i wybodaeth fwy diweddar nag oedd gen i o'r blaen, a bydd yn berthnasol i fy swydd yn awr ac yn y dyfodol." - Gweithiwr Achos Adsefydlu Ffoaduriaid, Awdurdod Lleol*

Gwnaeth ein hwythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel 2025 barhau â'r thema hon ac yr oedd 150 yn bresennol mewn pedwar sesiwn cinio a dysgu. Roedd y rhain yn ymdrin ag Incels a'r manosffer, canfyddiadau am dân gwledig, gwaith y gwasanaeth prawf â phobl sy'n gadael y carchar a llinellau sirol.

Dyma enghraifft o'r adborth a gafwyd:

*“Dylai pawb sy’n gweithio yn y maes hwn fynd i’r hyfforddiant hwn” – Rheolwr Polisi a Phartneriaeth, Awdurdod Lleol*

Yn ogystal â hyn, mae'r Rhwydwaith yn rhoi cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn i ymarferwyr, sy'n cynnwys Briff, ein cylchlythyr briffio misol sy'n mynd at dros 500 o danysgrifwyr, ein hadnoddau gwefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ar LinkedIn.

**3. Datblygu hyfforddiant a chapasiti**

Un o flaenoriaethau’r Rhwydwaith yw datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi diogelwch cymunedol, ac o ganlyniad i’r gwaith a wnaethom ni i ddatblygu’r cynnwys yn 2025, yr ydym ni ar y trywydd iawn i lansio hyn yn 2026. Bydd y rhaglen hyfforddi hon yn fodiwl lefel sylfaen am ddim a fydd yn rhoi sylfaen wybodaeth gadarn i ymarferwyr, budd-ddeiliaid a phartneriaid newydd a phresennol ar bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol, gan gynnwys dealltwriaeth ddeddfwriaethol, cyfrifoldebau statudol a gweithio mewn partneriaeth. Bydd hyn yn sicrhau gwytnwch i dimau diogelwch cymunedol, gan leihau'r angen i dalu am hyfforddiant a chefnogi gweithlu cynaliadwy ar adeg pan fo ymarferwyr yn ymgymryd â sawl rôl.

Mae'r Rhwydwaith hefyd wedi bod yn datblygu dull ar gyfer hyrwyddo datblygiad proffesiynol ac mae'n gobeithio gweithredu hyn yn 2026 i wella sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr a chydnabod yr ymrwymiad maen nhw'n ei wneud trwy fynd i’n seminarau a'n gweithdai hyfforddi.

**4. Hyrwyddo gwerthusiad a gwelliant parhaus**

Yn 2025 gwnaethon ni lansio Lleisiau o'r Rheng Flaen: Safbwyntiau Diogelwch Cymunedol, arolwg ledled Cymru i greu darlun gonest o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu timau diogelwch cymunedol. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys trais a chamfanteisio ar bobl ifanc, niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau, iechyd meddwl a digartrefedd, a rhwystrau parhaus i weithio’n effeithiol mewn partneriaeth. Tynnodd y canfyddiadau sylw at y pwysau ar gapasiti’r gweithlu, cymhlethdod cynyddol rolau, a’r galw am fwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r wybodaeth hon yn llunio blaenoriaethau'r Rhwydwaith ar gyfer hyfforddiant, digwyddiadau ac ymgysylltu â pholisi yn 2026 yn uniongyrchol. Mae'r Rhwydwaith wedi defnyddio tystiolaeth yr arolwg i atgyfnerthu pryderon hirdymor ynghylch trefniadau ariannu a bydd yn parhau i hyrwyddo newid cynaliadwy gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Yn 2025, cynhaliodd y Rhwydwaith y Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel am y drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yr oedd dros 120 o bobl yn bresennol a 253 o enwebiadau ar draws 16 categori. Cyflwynwyd tri deg pedwar o wobrau, yn cydnabod rhagoriaeth mewn gweithio mewn partneriaeth ac arloesi ledled Cymru. Y cyd-enillwyr oedd Sidestep Sir y Fflint, Gweithredu dros Blant a’r Fenter Gwrywdod Cadarnhaol, Media Academy Cymru. Mae gan y Gwobrau ran allweddol yn y gwaith o dynnu sylw at arloesi ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gefnogi dysgu ehangach a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar lefel genedlaethol.

## Y gwahaniaeth yr ydym ni wedi'i wneud - canlyniadau ac effaith

Gwnaeth gweithgarwch y rhwydwaith yn 2025 gryfhau gwybodaeth, hyder a gallu ymarferwyr ar draws amrywiaeth eang o rolau, o ymarferwyr rheng flaen i aelodau etholedig. Mae adborth yn dangos bod seminarau a sesiynau Cinio a Dysgu wedi llywio ymarfer a datblygiad proffesiynol yn uniongyrchol. Drwy sicrhau bod cyfleoedd dysgu am ddim ar gael ledled Cymru, gwnaeth y Rhwydwaith leihau'r angen am hyfforddiant â thâl; yn seiliedig ar gostau cyfartalog, amcangyfrifir bod hyn wedi arbed £20,330 i sefydliadau ledled Cymru mewn ffioedd presenoldeb mewn digwyddiadau.

---

*"Rwy'n teimlo fy mod i wedi dysgu llawer o'r sesiynau, byddwn i'n cymryd rhan ynddynt pryd bynnag y bydden nhw ar gael! Ardderchog" – Cynghorydd, Aelod Etholedig*

---

Mae adborth o bob rhan o'r tirlun diogelwch cymunedol yn tynnu sylw at rôl y Rhwydwaith fel cynullydd cenedlaethol dibynadwy, gan alluogi cydweithio, dysgu ar y cyd a llais cyfunol cryfach. Mae ymarferwyr yn pwysleisio gwerth cael un fforwm sy'n dod â phrofiad lleol, arferion da ac ymgysylltiad cenedlaethol at ei gilydd yn gyson.

---

*"Mwy, os gwelwch yn dda. Rwy'n credu bod cydweithio a dysgu gan eraill yn bwysig iawn. Mae cymaint o waith da yn digwydd ac felly mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n dod â'r cyfan at ei gilydd ac yn sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed ar draws y sector yn ogystal ag yn y llywodraeth - yma yng Nghymru ac yn Llundain." Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tai*

---

Drwy ymgysylltu cydlynol mewn 21 o ymgynghoriadau cyhoeddus, mae'r Rhwydwaith wedi sicrhau bod mewnwelediad ymarferwyr o bob cwr o Gymru yn cael ei gynrychioli'n gyson mewn trafodaethau polisi cenedlaethol a datganoledig. Mae tystiolaeth ac argymhellion y rhwydwaith wedi cael eu dyfynnu'n uniongyrchol mewn adroddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes: Rhaid i Gymru weithredu y Senedd, sy'n dangos hygrededd a dylanwad llais cyfunol y Rhwydwaith. Mae'r dull cyfunol hwn wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng profiad yn y rheng flaen a datblygu polisïau, gan gynyddu hygrededd, cydlyniad ac effaith safbwyntiau diogelwch cymunedol ar lefel genedlaethol.

Dangosir ein heffaith drwy ymarfer sy'n cael ei gydnabod a'i ehangu gan y Rhwydwaith. Er enghraifft, mae canllawiau Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysg (WISES) a ddatblygwyd gan Gyngor Caerdydd, y tynnwyd sylw ato drwy'r Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel, wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru yn

sail ar gyfer datblygu adnoddau diogelwch ysgolion Cymru gyfan. Mae hyn yn dangos sut mae'r Rhwydwaith yn helpu i nodi, hyrwyddo ac ehangu ymarfer lleol effeithiol i gyflawni effaith genedlaethol.

At ei gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn dangos gwerth y Rhwydwaith fel galluogwr system — meithrin gallu, lleihau dyblygu, ymhelaethu ar lais ymarferwyr a chefnogi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwella diogelwch cymunedol ledled Cymru.

## Edrych i'r Dyfodol: Blaenoriaethau ar gyfer 2026

- Canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar mewn digwyddiadau ac wrth ymgysylltu, yn dilyn adborth o arolwg Lleisiau o'r Rheng Flaen.
- Galluogi ymarferwyr i wneud cysylltiadau a llywio eu hymarfer drwy gynnal y Gynhadledd Cymunedau Mwy Diogel flynyddol gyntaf ym mis Mawrth.
- Lansio pecyn hyfforddi modiwl sylfaen i hysbysu a chefnogi ymarferwyr.
- Cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol i ymarferwyr ar ffurf seminarau, gweithdai, grwpiau partner a sesiynau hyfforddi eraill.
- Gweithio gyda phartneriaid ar y newidiadau i lywodraethu'r Heddlu a amlinellir yn y papur Diwygio'r Heddlu i roi eglurder a sicrhau bod model sy'n gweithio i Gymru yn y bartneriaeth bresennol.
- Datblygu fframweithiau rhannu data a gwerthuso ymhellach i hyrwyddo gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob maes ymarfer diogelwch cymunedol.
- Sicrhau cyllid ac adnoddau cynaliadwy ar gyfer twf parhaus Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, gan ganiatáu i ni barhau i gefnogi ymarferwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk